



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiadau Ystadau – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Blwyddyn Archwilio: 2015-16

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 385A2016



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Tracey Davies a Tom Haslam a gyflawnodd y gwaith.

Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gwella ei ddull strategol o reoli ei ystâd, ond mae angen tanategu hyn â threfniadau gweithredol cryfach er mwyn dangos bod y gwasanaeth hwn yn werth yr arian.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Mae dull strategol y Bwrdd Iechyd tuag at reoli ystadau yn well nag yr oedd, ond mae gwelliannau pellach yn bosibl 8

Er bod tystiolaeth o rywfaint o berfformiad da, nid yw trefniadau'n ddigon cryf i sicrhau bod y gwasanaeth ystadau yn rhoi gwerth am arian 13

Atodiadau

Atodiad 1 – Perfformiad dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 22

Atodiad 2 – System TG ystadau – dadansoddiadau enghreifftiol 26

Adroddiad cryno

Rhagarweiniad

- 1 Mae ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG Cymru) yn bodoli i gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd. Mae adeiladau a seilwaith yn adnoddau gwerthfawr a all effeithio yn uniongyrchol ar berfformiad y gwasanaeth. Mae'n rhaid iddynt fod o fath priodol, amod priodol a lleoliad priodol, ond gall fod yn ddrud i'w rhedeg a'u cynnal.
- 2 Fel arfer mae gan fyrddau iechyd ledled Cymru ystâd amrywiol gydag amrywiaeth o adeiladau, yn ddaeryddol wasgaredig, ac o wahanol oedran ac ansawdd. Ar hyn o bryd, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) bortffolio ystadau sy'n werth dros £200miliwn. Mae dros 60 y cant o'r ystâd dros 30 mlwydd oed.
- 3 Mae rheoli ystâd yn llwyddiannus yn gofyn am fewnbwn ac ymdrech gan fyrddau iechyd, ac mae'n cynnwys dau weithgaredd eang:
 - Rheolaeth strategol o'r ystâd - mae hyn yn bwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn ynglŷn â defnydd cyfredol a datblygiad yr ystadau ar gyfer y dyfodol. Dylai'r Bwrdd, gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol perthnasol, benderfynu pa ystâd sydd ei hangen i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, cymeradwyo cynlluniau i gyfenwi hyn, a darparu goruchwyliaeth. Bydd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yn ddylanwadol yn hyn o beth. Heb ddull strategol o weithredu, mae risg na fydd penderfyniadau rheoli ystadau a datblygu gwasanaethau yn gydgysylltiedig. Mae hyn yn creu risg ychwanegol y gall buddsoddiad cyllidol gael ei gamgyfeirio yn yr ystâd.
 - Rheolaeth weithredol o'r ystâd - mae hyn yn bwysig i sicrhau bod yr ystâd yn parhau i fod yn addas i'w defnyddio o ddydd i ddydd, a bod gweithwyr proffesiynol yn gallu caffael, addasu, a chael gwared ar rannau o'r ystâd yn ôl yr angen.
- 4 Dylai rheolaeth effeithiol ac effeithlon o'r ystad roi gwerth am arian. Ond gall diffyg sylw i un ai materion strategol neu faterion gweithredol olygu bod arian yn cael ei wastraffu ac weithiau gall olygu darparu gwasanaethau sy'n is na'r safon i ddefnyddwyr.
- 5 O fewn y Bwrdd Iechyd, yr Adran Gyfleusterau (yr adran), a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2013 yn dilyn ailstrwythuro, sy'n gyfrifol am reoli ystadau. Mae gan yr adran dimau gweithredol lleol ym mhob ysbyty aciwt, a thimau corfforaethol wedi'u lleoli'n ganolog yn rheoli eiddo a'r amgylchedd, yn cyflenwi prosiectau cyfalaf, a llywodraethu corfforaethol. Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y cyfrifoldebau ar gyfer:
 - ystadau a rheoli offer, gan gynnwys cynnal a chadw, Peirianeg Electro-Biofeddygol a chydymffurfiaeth – y cyfeirir atynt fel rheoli cyfleusterau 'caled';

- gwasanaethau arlwyo, porthorion, glanhau a golchi dillad – y cyfeirir atynt fel rheoli cyfleusterau ‘meddal’; ac
 - Uned Sterileiddio a Dadheintio Ysbytai (HSDU).
- 6 Yn 2014-15, gwariodd y Bwrdd Iechyd oddeutu £35 miliwn ar reoli cyfleusterau, tua phump y cant o gyfanswm ei wariant blynyddol.
- 7 Asesiad Strwythuredig yw archwiliad blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau cyrff y GIG i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Mae gwaith asesu strwythuredig blaenorol wedi amlygu materion yn ymwneud ag ystadau'r Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd y trydydd ôl-groniad uchaf¹ o waith cynnal a chadw yng Nghymru ar sail wedi'i addasu ar gyfer risg². Yn rhan o'r ôl-groniad hwn, mae oddeutu £24 miliwn wedi'i gategoreiddio yn risg uchel a sylweddol. O'i gymharu â byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol yn well na'r cyfartaledd yn ôl dangosyddion ystadau Llywodraeth Cymru. Ond er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu'n gyson â bodloni targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwr ffisegol a chydymffurfiaeth statudol a diogelwch. Mae **Atodiad 1** yn dangos perfformiad hanesyddol y Bwrdd Iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru ers 2008.
- 8 Yn 2015-16, ni osododd y Bwrdd Iechyd gyllideb gyllidol gytbwys, ac roedd ganddo ddiffyg alldro o £31.2 miliwn. Gyda'r amgylchedd cyllidol anodd hwn ac ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw, mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn manteisio i'r eithaf ar y gwerth am arian o'i ystad ac adnoddau cysylltiedig.
- 9 Mae ein hadolygiad felly yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei ystadau yn effeithiol?** Wrth ateb y cwestiwn hwn, rydym wedi ystyried pa un a yw:
- Dull strategol y Bwrdd Iechyd tuag at reoli ystadau yn gadarn?
 - Y Bwrdd Iechyd yn cyflenwi gwasanaeth ystadau darbodus, effeithlon ac effeithiol?
- 10 Rydym wedi dod i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi gwella ei ddull strategol o reoli ei ystadau, ond mae angen tanategu hyn â threfniadau gweithredol cryfach er mwyn dangos bod y gwasanaeth yn werth yr arian:
- Mae dull strategol y Bwrdd Iechyd o reoli ystadau yn well nag a fu, ond mae gwelliannau pellach yn bosibl:
 - mae atebolrwydd yn gliriach bellach, ond mae angen i graffu, rheoli perfformiad a chynllunio busnes fod yn gryfach;

¹ Gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar ystadau i godi safon er mwyn bodloni cyflwr ffisegol penodedig GIG Cymru a/neu gydymffurfio â gofynion diogelwch tân gorfodol a deddfwriaeth diogelwch statudol.

² Ystadau'r GIG, **Methodoleg yn seiliedig ar risg er mwyn sefydlu a rheoli ôl-groniad, cyfeirnod Porth 4102**, TSO, 2004.

- mae'r strategaeth ystadau yn iteriad cyntaf da, ond mae angen datblygiad pellach, ac mae rhywfaint o hynny yn dibynnu ar Gynllun Tymor Canolig Integredig cytunedig;
- mae gwelliannau mewn gwybodaeth am eiddo yn arwain at reoli risgiau yn well, risgiau megis asbestos, ac mae technoleg newydd yn cefnogi gwelliannau yn y defnydd o le; ac
- mae gwelliannau yn y ffordd y mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chytuno, ei rheoli a'i monitro, ond nid yw'r costau refeniw cysylltiedig ar gyfer y dyfodol yn cael eu cydnabod bob amser.
- Er bod tystiolaeth o rywfaint o berfformiad da, nid yw'r trefniadau yn ddigon cryf i sicrhau bod y gwasanaeth ystadau yn rhoi gwerth am arian yn gyson:
 - mae nifer o flynyddoedd o bennu cyllidebau hanesyddol yn golygu efallai nad yw'r gyllideb ystadau bresennol yn adlewyrchu yn llawn uchelgeisiau'r Bwrdd Iechyd;
 - ceir risg bod ystadau yn ymgymryd â gormod o atgyweirio ymatebol, a fyddai'n cynrychioli gwerth gwael am arian;
 - mae'r adran wedi llwyddo i leihau costau yn sylweddol, ond ceir risgiau y gellir methu cyfleoedd i wella gwerth am arian yn y tymor hirach;
 - nid yw rheoli perfformiad yn ddigon cryf i ddangos gwasanaeth effeithlon, effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid; ac
 - Mae rhai agweddau ar hyfforddiant wedi gwella, ond ni cheir unrhyw ddull strategol o hyfforddi a chynllunio'r gweithlu, ac mae absenoldeb oherwydd salwch yn achosi problemau.

Argymhellion

11 Rydym yn gwneud wyth argymhelliad:

Tabl Argymhellion

Argymhellion	
Dull strategol o reoli ystadau	
A1	Cryfhau rheoli perfformiad drwy: <ul style="list-style-type: none">• osod amcanion busnes clir;• lledaenu'r amrywiaeth o fesurau perfformio;• sicrhau bod data cadarn; ac• adrodd ar berfformiad yn rheolaidd.
A2	Creu blaengynllun gwaith Is-bwyllgor Cyfalaf, Ystadau a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, sy'n cynnwys craffu'n rheolaidd ar swyddogaeth yr ystadau.
A3	Gwella'r gwaith o ganolbwyntio ar y cwsmer ac ymgysylltu clinigol. Gwneud hyn drwy gyflwyno fforwm amlddisgyblaethol i drafod materion ystadau a/neu ddefnyddio grwpiau neu fforymau addas sydd eisoes yn bodoli lle bo hynny'n briodol.
A4	Datblygu ail iteriad o'r strategaeth ystadau sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad yr ystad a chefnogi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.
Gwasanaeth ystadau darbodus, effeithlon ac effeithiol	
A5	Datblygu cyllideb ystadau ar sail sero sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer costau refeiwi tebygol sy'n codi o newidiadau i ystad y bwrdd iechyd, megis adeiladau newydd.
A6	Lledaenu yr ystod o reoli perfformiad Dangosydd Perfformiad Allweddol i gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• amser;• cost;• cynhyrchiant;• amser anghynhyrchiol;• ansawdd;• gwasanaeth; ac• adborth gan gwsmeriaid.
A7	Cyflwyno dull hirdymor o wella gwerth am arian. Gwneud hyn un ai fel cynllun ar wahân, neu ei gynnwys mewn cynlluniau busnes sydd eisoes yn bodoli. Sicrhau bod hyn yn rhan o fecanweithiau cynllunio busnes rheolaidd yr adran.
A8	Sicrhau bod y nifer cywir o bobl sydd â'r sgiliau cywir ar gael yn awr ac yn y dyfodol, drwy ddatblygu cynlluniau wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y gweithlu a hyfforddiant.

Adroddiad manwl

Mae dull strategol y Bwrdd Iechyd tuag at reoli ystadau yn well nag yr oedd, ond mae gwelliannau pellach yn bosibl

Mae atebolrwydd bellach yn gliriach, ond mae angen i graffu, rheoli perfformiad a chynllunio busnes fod yn gryfach

- 12 Mae ailstrwythuro'r swyddogaeth rheoli cyfleusterau ym mis Tachwedd 2013 wedi gwneud llinellau atebolrwydd yn gliriach ar gyfer ystadau. Y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau yw'r arweinydd gweithredol ar gyfer rheoli cyfleusterau, sy'n cynnwys ystadau. Yn atebol iddo, mae gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau a Rheoli Cyfalaf gyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros y swyddogaeth rheoli cyfleusterau.
- 13 Mae gan y Bwrdd bellach Aelod Annibynnol sy'n gweithredu fel aelod 'arweiniol' ar gyfer materion ystadau. Mae hyn yn dilyn cyfnod byr heb i neb gyflawni'r swydd hon, a dylai helpu i sicrhau bod materion ystadau yn cael eu deall a'u cefnogi ar lefel Bwrdd.
- 14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud newidiadau i'w strwythurau pwyllgor. Cyfrifoldeb yr is-bwyllgor Cyfalaf, Ystadau a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (CEIMT) yw craffu ar ystadau yn awr. Is-bwyllgor y Pwyllgor Sicrhau Perfformiad a Chynllunio Busnes (BP&PAC) ydyw hwn, sy'n atebol i'r Bwrdd.
- 15 Mae agenda'r is-bwyllgor CEIMT wedi bod yn anghytbwys, er bod arwyddion bod hynny'n gwella. Ni ddangosodd adolygiad sampl o agendâu 2015-2016 unrhyw eitemau yn ymwneud â materion ystadau neu reoli gwybodaeth a thechnoleg. Roedd pob eitem ar yr agendâu yn berthnasol i'r rhaglen gyfalaf yn unig, gan olygu mai ychydig iawn o graffu neu herio a fu ar faterion ystadau ar lefel strategol. Mae adolygiad sampl pellach o agendâu 2016-2017 yn dangos bod hyn bellach yn gwella gyda rhywfaint o graffu ar faterion yn ymwneud ag ystadau a chynnaladwyedd.
- 16 Mae hefyd angen gwella'r gwaith o graffu ar faterion ystadau gweithredol. Mae trefniadau rheoli perfformiad presennol wedi'u seilio ar gyfarfodydd 'un i un' rhwng y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn cynnal cyfarfodydd unigol a chyfarfodydd tîm gyda'i aelodau staff.

- 17 Mae'r strategaeth ystadau bresennol yn amlinellu ambell fwrriad bras i adolygu gwasanaethau a chwilio am arbedion, ond mae'r rhain yn bennaf ym maes rheoli cyfleusterau meddal. Dim ond ychydig o'r seilwaith cynllunio busnes a rheoli perfformiad ffurfiol a ddisgwylir gan sefydliadau sy'n perfformio'n dda. Er enghraifft, ni chanfuwyd gennym:
- gynllun busnes yn pennu nodau, amcanion, cyllidebau a thargedau ystadau;
 - cardiau sgorio cynhwysfawr neu ddangosfyrddau o fetrigau allweddol sy'n cwmpasu pob dimensiwn o berfformiad;
 - rhaglen reolaidd o adolygiadau gwasanaethau, neu edrych yn fanwl yn gyfnodol ar berfformiad gwasanaethau unigol; a
 - grŵp ystadau amlddisgyblaethol, a fyddai'n darparu fforwm i'r prif wasanaethau clinigol i godi a thrafod materion yn ymwneud ag ystadau, a darparu adborth gan gwsmeriaid ac ymgysylltu i ystadau.

Mae'r strategaeth ystadau yn ddechreuad da, ond mae angen ei datblygu pellach, ac mae rhywfaint o hynny yn dibynnu ar Gynllun Tymor Canolig Integredig cytunedig

- 18 Dylai strategaeth dda fod yn seiliedig ar ateb tri chwestiwn. Dyma'r tri chwestiwn:
- Ble'r ydym ni ar hyn o bryd?
 - Ble'r ydym ni eisiau bod?
 - Sut rydym yn cyflawni hynny?
- 19 Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau yn cwmpasu'r cyfnod 2015-2017 (y strategaeth), yn seiliedig ar yr hyn y mae'n ei ystyried i fod yn sylfaen wybodaeth gadarn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod unwaith y cytunir ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig, bydd y strategaeth yn debygol o fod angen ei datblygu ymhellach i adlewyrchu hyn. Rydym wedi adolygu strategaeth y Bwrdd Iechyd gan gyfeirio at ganllawiau'r GIG³. Mae **Tystiolaeth 1** yn amlinellu ein hasesiad o'r strategaeth ystadau yn erbyn y canllawiau hyn.

³ Ystadau'r GIG, **Datblygu strategaeth ystadau Cyfeirnod Porth 4282**, TSO, Mawrth 2005.

Tystiolaeth 1: Asesiad o'r strategaeth ystadau

Cryfderau	Estates strategy assessment
Darparu asesiad llinell sylfaen defnyddiol o ystâd y Bwrdd Iechyd.	Ceir diffyg amcanion meintioli.
Mae rhywfaint o werthuso o ran capasiti'r tîm cyflenwi cyfalaf ar y gweill. Mae cynlluniau achos busnes yn cynnwys goblygiadau referniw ar gyfer ystadau.	Nid yw'r strategaeth yn cynnwys asesiad o'i 'gyflenwadwyedd'. Hynny yw, pa un a oes gan ystadau'r capasiti a'r gallu i gyflenwi'r hyn a nodir yn y strategaeth.
Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i fod yn gyson â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac i gefnogi ei weithrediad.	Nid chwblhawyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn derfynol pan ysgrifennwyd y strategaeth. Nid yw'n glir faint o ran oedd gan ystadau yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'n hanfodol bwysig i gynnwys rheolwyr a chlinigwyr o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill yr effeithir ar eu gwasanaethau.
Mae'r strategaeth yn rhagweld y bydd adolygiadau blynyddol yn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyson â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.	Ceir risg o ddargyfeirio rhwng y strategaeth a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae angen i'r strategaeth ddisgrifio'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â'r arweinyddiaeth glinigol a gwasanaethol.
Mae cynllun buddsoddi cyfalaf y Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr ansicrwydd ynghylch cyllid cyfalaf.	Nid yw'r strategaeth wedi'i chostio a'i hariannu'n llawn. Byddai amlinelliad o effaith referniw y rhaglen buddsoddi cyfalaf yn fuddiol.
Mae'n cynnwys yr ystâd gymunedol a reolir.	Mwy o gydnabyddiaeth o'r ystâd gymunedol annibynnol, sy'n rhan o'r system gofal iechyd. Gall cyflwr a daliadaeth y safleoedd hyn gyflwyno risgiau i'r Bwrdd Iechyd.
Cydnabod y lefelau uchel o ôl-groniad o waith cynnal a chadw, a chynnig dull o fynd i'r afael â hyn drwy gael gwared ar eiddo a buddsoddi cyfalaf dewisol.	Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfres o egwyddorion i gynorthwyo penderfyniadau buddsoddi. Ond nid oes yr un o'r cronfeydd cyfalaf wedi'u neilltuo, felly gellid eu cyfeirio at fannau eraill.
Mae'r strategaeth wedi'i hadolygu gan y BP& PAC.	Mae'n bwysig bod y Bwrdd cyfan yn ystyried y strategaeth ac yn ei chymeradwyo, a'i fod yn derbyn diweddariadau blynyddol o ran cynnydd.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o strategaeth ystadau'r Bwrdd Iechyd 2015–2017

- 20 Mae'r strategaeth bresennol yn darparu llinell sylfaen dda ar gyfer datblygu'r cam nesaf pan gwblheir y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Er hynny, cymysgedd ydyw ar hyn o bryd o ddwy strategaeth bosibl:
- strategaeth ar gyfer ystâd y Bwrdd Iechyd, sef 'strategaeth ystâd'; a
 - datblygu rhai rhannau o'r adran rheoli cyfleusterau, hynny yw 'strategaeth ar gyfer ystadau'.
- 21 Eid i'r afael yn well â'r olaf o fewn y tîm cynllunio busnes a rheoli perfformiad yr adran.

Mae gwelliannau mewn gwybodaeth am eiddo yn arwain at reoli risgiau yn well, megis risgiau asbestos, ac mae technoleg newydd yn cefnogi gwelliannau o ran defnyddio lle

- 22 Pennaeth Perfformiad Eiddo sy'n gyfrifol am ôl-groniad gwaith cynnal a chadw, prydles, caffaeliadau a gwaredu, defnyddio lle, a gwybodaeth am eiddo. Sefydli'r llawer iawn o'r wybodaeth hon gan ddefnyddio arolygon cyflwr. Mae'r arolygon hyn yn hanfodol i ddarparu dealltwriaeth lawn o gyflwr yr ystadau. Dywedwyd wrthym efallai nad oedd arolygon cyflwr wedi'u gwneud mor aml neu mor eang ag oedd angen yn y gorffennol. Mae gwaith diweddar ar ystadau ynglŷn â gwella gwybodaeth am eiddo yn golygu bod maint ac ansawdd y data bellach yn rhesymol, a gwybodaeth ôl-groniad fanwl yn cael ei chadw. Mae'r tîm perfformiad eiddo yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn y tîm cynnal a chadw i gael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am eiddo.
- 23 Mae'r ymagwedd tuag at risgiau allweddol megis asbestos a legionela wedi gwella o ganlyniad i wybodaeth well. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu nifer o welliannau:
- Amlygodd ymarfer dadansoddi bylchau wendidau o ran cydymffurfiaeth â safonau Memoranda Technegol Iechyd (HTM) GIG. Mae'r tîm ystadau yn adrodd eu bod yn defnyddio'r HTM fel fframwaith, a gefnogir gan ymarferion gweithio manwl, a'u bod bellach wedi cydymffurfio'n sylweddol mewn cysylltiad â phob eitem allweddol.
 - Sefydlu'r Tîm Cydymffurfio i gryfhau'r gwaith o reoli risg o fewn amgylchedd yr ystadau. Mae'r Rheolwr Cydymffurfio yn gyfrifol am nodi a monitro cydymffurfiaeth â HTM a chanllawiau gorfodol, gan gynnwys hyfforddi. Mae hyn yn helpu i ddangos cydymffurfiaeth â safonau HTM o ran materion megis canllawiau polisi, strwythurau rheoli, ac unigolion cymwys.
 - Caiff risgiau allweddol eu cynnwys yn y cofnod o'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw risg uchel, sy'n helpu i gynnal gwelededd a goruchwyllo.
- 24 Mae'r tîm perfformiad yn datblygu cylch bywyd ar gyfer asedau yn rhan o'r ystâd aciwt. Os bydd yn llwyddiannus, bydd hwn yn eu galluogi i ddefnyddio rhagolygon o gyflwr eiddo i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol. Nod cyffredinol

gwaith y cylch bywyd yw datblygu cynllun buddsoddi pedair blynedd i gyd-fynd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

- 25 Mae'r tîm ystadau hefyd yn arbrofi â thechnoleg i nodi gwelliannau posibl o ran defnyddio lle, a fydd yn helpu i gefnogi rhaglen rhesymoli ystadau. Mae adroddiadau cynnar yn dangos bod y dechnoleg hon wedi nodi gwelliannau o ran defnyddio lle sy'n ychwanegol at ei gost.

Bu gwelliannau i'r ffordd y mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chytuno, ei rheoli a'i monitro, ond nid yw'r costau refeniw cysylltiedig ar gyfer y dyfodol yn cael eu cydnabod bob amser

- 26 Mae creu BP&PAC ac is-bwyllgor CEIMT wedi darparu dull ar gyfer gwella'r oruchwyliaeth o'r rhaglen gyfalaf. Cefnogir y pwyllgorau gan y Grŵp Cynllunio Cyfalaf a'r Fforwm Monitro Cyfalaf. Mae 'system dracio' bellach yn helpu i fonitro cynlluniau cyfalaf. Mae'r bwrdd iechyd bellach yn penodi uwch berchennog cyfrifol a chyfarwyddwr prosiect ar gyfer pob cynllun, fel yr argymhellir ym methodoleg Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus.
- 27 Mae newidiadau i'r cofrestrî risg yn golygu eu bod bellach yn cynnwys gwybodaeth o'r ymarfer dadansoddi bylchau HTM. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r wybodaeth o'r cofrestrî risg er mwyn helpu i flaenoriaethu gwariant cyfalaf. Ystyria'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau a Rheoli Cyfalaf y ceir lefel dda o wybodaeth yn awr er mwyn helpu i reoli rhaglen gyfalaf a gwneud penderfyniadau ynglŷn â hi. Mae penderfyniadau o ran rhaglenni cyfalaf yn cymryd i ystyriaeth profiad y claf a chwynion. Er enghraifft, mae rhai o'r cynlluniau mwy wedi ymateb i sylwadau ynglŷn â phrofiadau cleifion ac ymwelwyr, megis gwelliannau i feysydd parcio a siop goffi newydd.
- 28 Mae achosion busnes cyfalaf ystadau yn defnyddio costau oes gyfan, sy'n arfer da. Dyma dechneg arfarnu buddsoddiad sy'n asesu cyfanswm cost ased drwy gydol ei oes. Mae'n cymryd i ystyriaeth y gost cyfalaf cychwynnol, yn ogystal â chostau gweithredu, costau cynnal a chadw, costau atgyweirio, adnewyddu, a chostau gwaredu yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn achosion busnes ar gyfer gwaith cynnal a chadw, gwaith atgyweirio a gwaith adnewyddu yn y dyfodol yn ffigurau tybiannol. Hynny yw, nid ydynt yn achosi cynnydd yng nghyllideb ystadau. Golyga hyn nad yw pwysau ar y gyllideb cynnal a chadw yn y dyfodol yn cael eu cydnabod ac ni chynllunnir ar eu cyfer.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth o berfformiad da, nid yw'r trefniadau'n ddigon cryf i sicrhau bod y gwasanaeth ystadau yn darparu gwerth am arian

Mae sawl blwyddyn o osod cyllideb yn hanesyddol yn golygu nad yw'r gyllideb ystadau bresennol o bosibl yn adlewyrchu uchelgeisiau presennol y Bwrdd Iechyd

29 Yn 2014-15, tua £35 miliwn gan gynnwys yr Uned Sterileiddio a Diheintio Ysbytai oedd cyllideb weithredol yr adran rheoli cyfleusterau. Y pedwar prif bennawd cyllideb yw: cynnal a chadw gweithredol, glanhau, arlwygo ac ynni. Mae **Tystiolaeth 2** yn rhoi manylion gwariant yn gysylltiedig ag ystadau 2015-16.

Tystiolaeth 2: Gwariant yn gysylltiedig ag ystadau 2015-16

Maes cyllideb	Gwariant mewn miliynau
Eiddo ystadau	£8,641
Gweithrediadau ystadau	£6,276
Rheoli ystadau	£642
Gwybodaeth a pherfformiad	£559
Cymorth cyfalaf	£112
Cyfansymiau	£16,230

Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r Bwrdd Iechyd 2015-16

30 Dywedodd yr adran wrthym:

- y bu gorwariant yn y gyllideb yn flaenorol, a'r gyllideb cynnal a chadw gweithredol oedd yn cyfrannu fwyaf at hyn;
- bod adroddiad y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn 2013⁴ ac ailstrwythuro sefydliadol wedi dod â rhagor o ddisgyblaeth i'r gyllideb; a
- bod sefyllfa'r gyllideb wedi'i adfer, a'i fod bellach wedi'i fantoli.

31 Nid ydym wedi gallu dilysu'r holl ddatganiadau hyn oherwydd nad oedd gwybodaeth fanwl y bwrdd iechyd am y gyllideb ar gael.

⁴ Gwasanaeth Cyfleusterau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, **Report on maintenance provision for estate services in the NHS in Wales**, Hydref 2013.

- 32 Mae Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu⁵ (CIBSE) yn argymhell y dylai cyllidebau fod ar sail sero. Yn hytrach na chymhwysu cynyddran i gyllideb y flwyddyn flaenorol, mae cyllideb ar sail sero yn cychwyn o 'sail sero' a chaiff y gyllideb ei hadeiladu yn seiliedig ar anghenion a chostau. Mae'r dull hwn yn rhoi cyllideb fwy cynaliadwy, gan ostwng y risg o beidio â bodloni anghenion cynnal a chadw hanfodol a statudol.
- 33 Nid yw cyllideb ystadau'r Bwrdd lechyd ar sail sero, ond yn hytrach mae'n seiliedig ar broses o drosglwyddo cyllidebau hanesyddol ymlaen gyda gwelliannau cost blynyddol. Ar ôl sawl blwyddyn o'r arfer hwn, mae perygl bod gweithgareddau yn cyd-fynd â chyfyngiadau'r gyllideb ac nid i'r galw gwirioneddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r ystad yn destun newid sylweddol, fel adeiladu newydd, gwaredu neu ad-drefnu.
- 34 Er enghraifft, nid yw'r Bwrdd lechyd yn cynnwys costau cynnal a chadw adeiladau newydd yn y dyfodol fel rhan o'r drefn arferol yn y gyllideb berthnasol. Mae CIBSE yn cynghori mai rhannol wir yn unig yw'r farn bod llai o gostau cynnal a chadw ar adeiladau mwy newydd o'u cymharu ag adeiladau hŷn. Dylai adeiladau newydd fod yn llai tebygol o ddiodeff diffygion, ond maent yn fwy cymhleth nag adeiladau hŷn. Mae gan adeiladu mwy newydd felly y potensial i fod yn fwy drud i'w cynnal yn yr hirdymor, a gallai fod angen rhai sgiliau gwahanol. Bydd methu â darparu ar gyfer costau cynnal a chadw adeiladau newydd yn parhau i greu pwysau ar y gyllideb yn y dyfodol.

Mae perygl bod ystadau'n gwneud gormod o atgyweiriadau adweithiol, sy'n cynrychioli gwerth gwael am arian

- 35 Dylai fod gan Fyrddau lechyd strategaeth cynnal a chadw sy'n cydbwysu'r llwyth gwaith rhwng gwaith adweithiol a gwaith wedi'i gynllunio. Mae atgyweiriadau adweithiol, nad ydynt wedi eu cynllunio, yn ddrutach yn gyffredinol na gwaith cynnal a chadw sydd wedi ei gynllunio. Yn yr hirdymor, dylai mwy o waith wedi'i gynllunio arwain at lai o waith adweithiol ac at lai o ddiffygion trychinebus. Fodd bynnag, gallai wneud gormod o waith cynnal a chadw ddefnyddio adnoddau'n ddiangen a gallai hynny gyflwyno problemau newydd.
- 36 Dylai adran ystadau sy'n arddel arferion da adolygu lefelau'r gwaith adweithiol a'r gwaith a gynllunnir o bryd i'w gilydd i sicrhau bod cydbwysedd digonol rhwng y ddau. Er nad oes maen prawf arfer da y cytunwyd arno ar gyfer y GIG, yn gyffredinol mae adrannau cynnal a chadw llywodraeth leol yn dweud y dylai'r cydbwysedd rhwng gwaith sydd wedi ei gynllunio a gwaith adweithiol for rhwng 70:30 a 60:40 yn ôl gwerth.

⁵ Chartered Institution of Building Services Engineers, **Maintenance Engineering and Management Guide M**, November 2014.

37 Er mwyn darlunio hyn, adolygwyd sampl o ddata o un safle, Ysbyty y Tywysog Phillip ar gyfer 2014-15. Dangosodd hyn bod y rhaniad rhwng atgyweiriadau a gynlluniwyd ac atgyweiriadau a gynlluniwyd yn 42:58. Rydym yn cydnabod mai data un flwyddyn yn unig ar gyfer un safle yw hwn, ond mae'n dangos y gallai'r Bwrdd Iechyd fod yn gwneud gormod o waith atgyweirio adweithiol a bod angen monitro hyn yn fwy agos.

Mae'r adran wedi cyflawni arbedion cost sylweddol, ond mae risgiau y gellid colli cyfleoedd i wella gwerth am arian yn yr hirdymor

- 38 I sicrhau bod y gyllideb ystadau yn darparu gwerth am arian, dylai byrddau iechyd werthuso economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn rheolaidd. Y modd gorau o wneud hyn yw trwy ddull cynaliadwy, wedi'i gynllunio yn yr hirdymor, gan edrych y tu hwnt i arbedion byrdymor. Gall cymryd cyfran o gyllidebau, neu dorri costau yn fympwyl, olygu bod sefydliadau yn agored i broblemau a heb baratoi'n ddigonol ar gyfer y dyfodol, a gall arwain hynny at gostau uwch yn gyffredinol neu symud costau i fannau eraill. Mae dull strategol hefyd yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cyd-fynd ag amcanion y bwrdd iechyd a'r adran.
- 39 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd nad oedd meincnodi ystadau wedi bod yn ddefnyddiol iawn, oherwydd bod cael maint sampl ystyrion o sefydliadau tebyg yn anodd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio meincnodi perfformiad ei ystadau trwy:
- lenwi ffurflenni System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau GIG Cymru (EFPMS). Fodd bynnag, mae maint y sampl yn fach ac ychydig o debygrwydd sydd rhwng byrddau iechyd, felly mae angen trin yr wybodaeth yn ofalus; ac
 - adolygu gwybodaeth yn system casglu gwybodaeth GIG Lloegr (ERIC) at ddibenion cymharu.
- 40 Nid yw'r un o'r ymarferion meincnodi hyn yn rhoi profiad cwbl foddhaol i'r Bwrdd Iechyd, ond maent yn darparu rhai amcangyfrifon defnyddiol.
- 41 Mae **Tystiolaeth 3** yn dangos perfformiad y Bwrdd Iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru. Mae hwn yn dangos yn gyffredinol bod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhesymol o dda o'i gymharu â gofynion GIG Cymru, ond mae angen gwella rhai meysydd penodol er mwyn bodloni'r targed.

Tystiolaeth 3: Perfformiad o'i gymharu â dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 2012-2015

Meini prawf asesu	Sgôr 2012-13	Sgôr 2013-14	Sgôr 2014-15	Graddfa COG 2014-15
Cyflwr ffisegol	87	87	87	Oren
Cydymffurfiaeth statudol a diogelwch	86	87	88	Oren
Cydymffurfiaeth o ran diogelwch tân	91	91	90	Gwyrdd
Addasrwydd swyddogaethol	90	91	92	Gwyrdd
Defnydd o le	96	97	98	Gwyrdd

Graddfa COG – Coch hyd at 75 y cant, Oren 75 y cant-89 y cant, Gwyrdd 90 y cant neu uwch

Ffynhonnell: Adroddiad Cyflwr a Pherfformiad Ystadau GIG Cymru 2014-15

- 42 Mae **Atodiad 1** yn dangos perfformiad hanesyddol y Bwrdd Iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru ers 2008. Mae'n dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni'r targedau ar gyfer tri o'r pump dangosydd.
- 43 Ledled Cymru, mae adrannau ystadau byrddau Iechyd dan bwysau cynyddol i ostwng eu cyllidebau gan barhau i gefnogi darpariaeth gwasanaethau clinigol diogel. Mae uwch bersonél ystadau felly yn gynyddol yn canolbwyntio ar yr angen i nodi arbedion effeithlonrwydd.
- 44 Mae adran ystadau'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud arbedion sylweddol. Mae rhai o'r arbedion hyn wedi dod o werthu eiddo a dod â phrydlesi i ben, gostwng niferoedd staff a buddsoddi mewn peiriannau trwm ac offer mwy effeithlon o ran ynni. Ers 2012, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau gostyngiad o 8,300m² yn ei ôl-troed, a ddarparodd tua £1.3 miliwn o dderbynion cyfalaf ac arbediad referniw o dros £650,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, mae ychwanegu adeiladau newydd wedi gwrthbwysu'r gostyngiadau hyn, gan adael cynnydd net o ran ôl-troed o ryw 3,000m².
- 45 Mae dadansoddiad cost y Bwrdd Iechyd ei hun yn dangos:
- Ar sail cost uned (£ fesul m²), rheoli cyfleusterau (gan gynnwys ystadau) wedi costau £153 fesul m² ar gyfartaledd yn 2014-15, gostyngiad o wyth y cant ers 2012-13.
 - Roedd y costau cynnal a chadw adeiladau a pheirianwaith yn £23.16 fesul m² yn 2014-15, gostyngiad o 13 y cant ers 2012-13.

- Mae'r strwythur rheoli cyfleusterau newydd wedi darparu gwelliannau costau cyffredinol o ryw £1.3 miliwn.

46 Heblaw am y camau eang uchod, nid yw'r adran yn mesur ei gynhyrchiant yn fanwl yn rheolaidd. Hefyd, nid oes cynllun wedi ei gofnodi sy'n ceisio gwella gwerth am arian mewn modd cydgysylltiedig, hirdymor. Mae rheolwyr wedi dweud wrthym eu bod yn bwriadu adolygu rhai gwasanaethau yn y dyfodol, ond nid oes cynllun ar gyfer hynny. Heb ddull wedi ei gynllunio tuag at werth am arian, mae risgiau y gellid colli cyfleoedd, neu y gallai gostyngiadau cost byrdymor fod yn wrthgynhyrchiol yn y tymor hwy.

Er enghraifft:

- Mae'r adran yn adrodd nad oes ganddi gyllideb hyfforddi. Felly mae bodloni'r gost flynyddol o £80,000 sydd wedi ei nodi ar gyfer HTM a hyfforddiant gorfodol yn anodd. Serch hynny, mae'r adran wedi cadw yr un cyflenwr hyfforddiant ers blynyddoedd lawer heb brofi'r farchnad na thendro'n gystadleuol.
- Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae 22 aelod o staff wedi mynd o'r tîm cynnal a chadw, gan adael cyfanswm o 87 o staff gweithredol. Mae gostwng nifer y staff heb ddiswyddiadau gorfodol yn achosi llai o amhariad, ond mae perygl y gallai'r adran golli rhai o'i staff mwyaf gwerthfawr neu'r rhai â'r mwyaf o sgiliau, a bod staff â llai o sgiliau yn aros.
- Mae gan yr Adran Ystadau bedair desg gymorth, un ar gyfer pob safle aciwt, er bod llawer o sefydliadau GIG wedi symud at system un ddesg gymorth. Hefyd, mae dwy ddesg gymorth rheoli cyfleusterau eraill, gan wneud cyfanswm o chwech.
- Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal unrhyw brofion o'r farchnad ar gyfer ei wasanaethau ystadau. Mae hyn yn bwysig gan fod ganddo'r gyfran isaf o wasanaethau sy'n cael eu contractio allan yng Nghymru, sef dim ond wyth y cant. Mae llawer o'r aelodau staff technegol yn cael eu talu ar radd yn uwch na swyddogion cyfatebol mewn byrddau iechyd eraill.
- Mae'r adran wedi cyflwyno system 'POD' ar ddwy ward yn Ysbyty Glangwilli. Mae'r cynllun lleol hwn wedi creu pwynt cyswllt i ddwy ward i aelod o staff led-grefftus ar gyfer ymdrin â mân atgyweiriadau. Mae prif nyrsys y wardiau yn nodi sylwadau cadarnhaol am y cynllun hwn. Mae'n ymatebol, dywedir ei fod yn gwella'r defnydd o staff, ac mae'r adran ystadau yn ystyried ei gyflwyno'n ehangach. Ond heb gyd-destun o gynllun ehangach ar gyfer gwerth am arian, nid oes unrhyw sicrwydd ei fod yn targedu'r meysydd cywir, na sicrwydd mai hwn yw'r peth cywir i'w wneud o safbwynt strategol.

Nid yw rheoli perfformiad yn ddigon cryf i ddangos gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid

- 47 Prif nodweddion system berfformio dda yw gosod targedau perfformiad ystyrion, a mesur ac adrodd ar berfformiad o'i gymharu â nhw mewn modd cyson.
- 48 Mae cynnal a chadw yn un o rannau mwyaf swyddogaeth ystadau y Bwrdd Iechyd ac mae'n gymharol gynhwysfawr o ran gwybodaeth. Felly, rydym wedi adolygu'r gwasanaeth hwn fel modd o werthuso sut y mae'r weithred o reoli perfformiad yn dda yn debygol o fod ar draws holl swyddogaeth yr ystadau.
- 49 Mae safonau gwasanaeth cynnal a chadw yn cael eu defnyddio ond nid yw'r rhain yn ddigon eang i roi darlun llawn o berfformiad. Byddem yn disgwyl y byddai cyfres gynhwysfawr o safonau perfformiad a fyddai'n cynnwys categorïau eang fel:
- amser;
 - cost;
 - ansawdd;
 - gwasanaeth; a
 - adborth cwsmeriaid/bodlonrwydd defnyddwyr.
- 50 Mae'r safonau gwasanaeth cyfredol yn seiliedig ar amser yn unig, gan bennu amser ymateb ar gyfer gwahanol gategoriâu o atgyweiriadau adweithiol a rhai sydd wedi eu cynllunio. Mae adroddiadau perfformiad bob chwe mis a bob blwyddyn o'u cymharu â'r safonau gwasanaeth. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd bod y rhain yn destun craffu cadarn ar lefel uwch.
- 51 Mae dibynnu ar un dull o fesur perfformiad yn wendid. Ond yn ychwanegu at y gwendid hwn y mae diffygion o ran sut y caiff y data hwn ei gasglu a'i ddadansoddi. Mae system technoleg gwybodaeth RAM4000 yr adran yn cofnodi tasgau atgyweirio ac yn creu'r data perfformiad. Gallai gwaith atgyweirio fynnu rhannau newydd a chan nad yw'r adran yn cadw llawer o stoc, gall hyn arwain at oedi yn y broses atgyweirio. Yn yr achosion hyn ac achosion tebyg, mae rhai meysydd wedi mabwysiadu protocol sy'n agor tasg ar y system, yn ei gau, ac yna'n ei ailagor. Yn ymarferol, mae'n 'stopio'r cloc', ac felly nid yw'r amser sy'n mynd heibio wrth aros am y rhannau yn cyfrif.
- Roedd ein hadolygiad sampl ar ddata tîm Ysbyty Tywysog Philip, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd mai yn y tîm hwn yn unig y mae'r arfer hwn yn amlwg.
- 52 Mae'r adran ystadau yn adrodd bod hyn yn rhoi adlewyrchiad llawer mwy cywir o'i berfformiad oherwydd bod oedi o'r fath y tu hwnt i'w reolaeth. Er bod hyn yn wir, mae'r arfer hwn o 'stopio'r cloc' yn achosi problemau oherwydd:
- ei fod yn achosi problemau ansawdd data o ganlyniad i anghysondebau rhwng gwahanol feysydd/timau;
 - ei fod yn cuddio'r gwir amser atgyweirio y mae'r cwsmer yn ei brofi;
 - y gallai roi hyder ffug i'r adran, ac i eraill, yn ei berfformiad; a'i

- fod yn atal yr adran rhag dadansoddi'r data ymhellach, er enghraifft i ystyried pa rannau neu dasgau sy'n creu'r oedi mwyaf a pha un a yw'n gallu gwneud pethau'n wahanol i wrthbwysu hyn.
- 53 Mae ein hadolygiad o'r system technoleg gwybodaeth RAM4000 yn dangos bod ganddo'r potensial i greu gwybodaeth llawer mwy manwl nag yw ar hyn o bryd, ac mae Atodiad 2 yn rhoi rhai enghreifftiau.
- 54 Mae'r perfformiad cynnal a chadw cyfredol yn rhesymol, ond nid yw'n bodloni holl dargedau'r Bwrdd Iechyd. Mae Tystiolaeth 4 yn dangos bod perfformiad wedi dirywio mewn tri o'r pum categori. Fodd bynnag, gallai'r dull 'stopio'r cloc' olygu bod y perfformiad hwn wedi ei orddatgan o'i gymharu â'r hyn y mae'r cwsmer yn ei brofi mewn gwirionedd.

Tystiolaeth 4: Perfformiad cynnal a chadw adweithiol ac wedi'i gynllunio 2012-15

Categori atgyweirio	Targed	2014-15	2013-14	2012-13
Atgyweiriadau a gynlluniwyd				
Cwblhau gwaith atgyweirio risg uchel	75%	79%	84%	76%
Cwblhau gwaith atgyweirio risg gyffredinol	70%	63%	68%	65%
Atgyweiriadau adweithiol				
Blaenoriaeth 1 - cwblhau mewn un diwrnod	85%	82%	82%	82%
Blaenoriaeth 2 – cwblhau mewn tri diwrnod	78%	73%	76%	78%
Blaenoriaeth 3 – cwblhau mewn saith diwrnod	65%	67%	67%	74%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r Bwrdd Iechyd

- 55 Nid oes gan yr adran ddim systemau i roi sicrwydd bod ceisiadau atgyweirio yn cael eu categorio'n gywir. Er enghraifft, nid oes rhaglen reolaidd o archwilio'r ddesg gymorth, archwilio ceisiadau atgyweirio, neu archwilio ar ôl y gwaith atgyweirio ar gyfer gwaith atgyweirio adweithiol neu waith a gynlluniwyd. Nid yw'r staff desg gymorth wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar yn yr un o'r pedair desg gymorth unigol.
- 56 Mae'r system atgyweirio yn drefnus o ran blaenoriaethu ceisiadau atgyweirio, felly mae'n hanfodol eu bod yn cael eu categorio'n gywir. Gallai ceisiadau atgyweirio sydd wedi'u categorio'n wael arwain at wariant diangen neu dasgau blaenoriaeth uwch yn aros yn ddiangen.
- 57 Rydym wedi canfod amrywiaeth eang o ran sut y caiff ceisiadau atgyweirio eu categorio yn y gwahanol safleoedd aciwt. Er enghraifft:

- Ar gyfer atgyweiriadau adweithiol – roedd un safle wedi categorioedd 68 y cant o'i lwyth gwaith adweithiol yn Flaenoriaeth 1, a 32 y cant yn unig yr oedd safle arall wedi categorioedd llwyth gwaith adweithiol yn Flaenoriaeth 1.
 - Ar gyfer gwaith cynnal a chadw a oedd wedi'i gynllunio – roedd un safle wedi categorioedd 55 y cant o'r llwyth gwaith a oedd wedi'i gynllunio yn Risg Uchel, a 25 y cant yn unig yr oedd safle arall wedi ei categorioedd yn Risg Uchel.
- 58 Mae'n debygol bod rhai gwahaniaethau dilys rhwng y safleoedd oherwydd ffactorau risg lleol. Er enghraifft, mae draenio yn cael blaenoriaeth uwch yn Ysbyty Glangwilli o'i gymharu â Ysbyty Tywysog Philip oherwydd gwahaniaethau yn amodau'r safle. Mae rheolwyr o'r farn bod lefel dda o gysondeb mewn safleoedd, oherwydd dilyniant staff desg gymorth. Mae rheolwyr yn llai hyderus bod cysondeb ar draws safleoedd. Fodd bynnag, heb unrhyw ddadansoddi rheolaidd, nid oes unrhyw sicrwydd bod hwn yn ddarlun cywir.
- 59 Bydd gwasanaeth ystadau effeithlon sy'n canolbwyntio ar ystadau:
- yn darparu gwasanaethau sy'n gyson yn rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid; ac
 - yn gwybod beth yw barn y cwsmeriaid am y gwasanaeth.
- 60 Un ffordd o sicrhau bod staff yn ystyried gwasanaeth cwsmeriaid yn hanfodol yw defnyddio cod ymddygiad, siarter gwasanaeth neu rywbeth tebyg. Mae hyn yn ei gwneud yn amlwg pa ymddygiad a ddisgwyllir gan staff ac yn darparu modd o gysylltu polisïau at ei gilydd. Yn y Bwrdd Iechyd, nid oes cod ymddygiad neu rywbeth tebyg, yn llywodraethu'r dull o ofalu am gwsmeriaid. Nid oes arolygon bodlonrwydd defnyddwyr yn cael eu defnyddio, sy'n golygu nad oes gan yr adran ddata dibynadwy i fesur barn ei chwsmeriaid.

Mae rhai agweddau ar yr hyfforddiant wedi gwella, ond nid oes dull strategol o hyfforddi a chynllunio gweithlu, ac mae absenoldeb salwch yn achosi problemau

- 61 Mae canllawiau ar draws y GIG yn pwysleisio'r angen am atebolrwydd a chyfrifoldebau sydd wedi eu pennu'n eglur ar gyfer rheoli ystadau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod staff sy'n rheoli'r ystadau â chymwysterau addas.
- 62 Mae gan adran ystadau'r Bwrdd Iechyd gynllun hyfforddi sy'n cwmpasu hyfforddiant gorfodol a HTM. Y rheolwr cydymffurfio sy'n gyfrifol am gasglu a monitro'r cynllun, sydd fel arfer yn nodi tua £80,000 o hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oes cyllideb hyfforddiant wedi ei neilltuo, felly yn aml mae'n rhaid i reolwyr flaenoriaethu'r galw am hyfforddiant a chwilio am ffynonellau priodol o gyllid.
- 63 Ymdrinnir â datblygiad proffesiynol neu hyfforddiant arall, hynny yw, nad yw wedi ei bennu'n orfodol/HTM, ar sail unigol rhwng yr aelod o staff a'r rheolwr. Mae

rheolwyr yn asesu ceisiadau am hyfforddiant gan ddefnyddio dull achos busnes ac yn eu cofnodi yng ngwerthusiad a chofnod adolygu datblygiad yr aelod o staff. Nid oes gan yr adran Ystadau gynllun hyfforddi sy'n cwmpasu'r meysydd hyfforddi hyn, sy'n ei gwneud yn anodd i gynllunio datblygiad staff ar sail strategol. Er enghraifft, mae llawer o'r adeiladau newydd yn fwy cymhleth na'r hen adeiladau, a gallai hyn olygu bod angen i staff cynnal a chadw ddatblygu gwahanol sgiliau yn y dyfodol.

- 64 Dywedwyd wrthym fod gan y tîm cynnal a chadw broffil staff sy'n heneiddio. Er enghraifft, yn Ysbyty Glangwilli mae tua 57 y cant o'r gosodwyr yn 55 oed neu'n hŷn. Mae'r rheolwyr wedi cydnabod y mater hwn ac wedi dechrau ystyried hyn, ond nid oes cynllun gweithlu. Heb gynllun i ymdrin â'r gweithlu sy'n heneiddio a'r angen posibl am wahanol sgiliau, gallai'r adran ystadau fod mewn sefyllfa lle na fyddant yn gallu darparu'r amrywiaeth angenrheidiol o wasanaethau.
- 65 Ym mis Hydref 2013, roedd adroddiad y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn nodi bod lefelau uchel o salwch hirdymor. Mae'r adran yn monitro lefelau salwch fel dangosyddion perfformiad allweddol, ond nid ydynt yn eu rhannu yn salwch hirdymor a byrdymor, a dylid eu rheoli'n wahanol. Roedd salwch staff cynnal a chadw yn 5.93 y cant yn 2012-13, a 7.73 y cant yn 2014-15. Mae'r ffigur olaf yn cyfateb i 1,832 o ddyddiau gwaith a gollwyd, neu waith tua naw aelod o staff. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu gwybodaeth yn rhwydd ar amser arall nad yw'n gynhyrchiol, fel amser teithio. Mae hyn yn awgrymu nad yw'n cael ei fonitro'n rheolaidd.

Atodiad 1

Perfformiad dangosfwrdd ystadau GIG Cymru

Mae'r siartiau canlynol yn seiliedig ar ffurflenni data ystadau blynyddol a gyflwynir gan gyrff iechyd yng Nghymru i'r EFPMS. Cyflwynwyd y system hon gan Lywodraeth Cymru yn 2002 a chaiff ei rheoli gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Cyfleusterau.


Mae gwybodaeth yr EFPMS yn canolbwyntio ar gyflwr a pherfformiad yr ystad iechyd. Mae'r siartiau yn cwmpasu cyfnod o saith mlynedd 2008-09 i 2014-15, ac yn cwmpasu pump o'r chwe dangosydd perfformiad cenedlaethol. Nid yw'r chweched, perfformiad ynni, wedi'i gynnwys gan ei fod y tu allan i gwmpas ein gwaith.

Mae pob siart yn dangos:


- Perfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
- Cyfartaledd Cymru gyfan; a
- Tharged Llywodraeth Cymru, lle bo'n berthnasol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am EFPMS am [Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Cyfleusterau](#)


Tystiolaeth 5: Cyflwr Ffisegol




Tystiolaeth 6: Cydymffurfiaeth statudol ac o ran diogelwch




Tystiolaeth 7: Cydymffurfiaeth o ran diogelwch tân



Tystiolaeth 8: Addasrwydd swyddogaethol



Tystiolaeth 9: Defnydd o le




Atodiad 2

System TG Ystadau – dadansoddiadau enghreifftiol

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfres o ddadansoddiadau ar sail sampl o ddata a lawrlwythwyd o system TG RAM4000 yr adran. Roedd y sampl ar gyfer Ysbyty Tywysog Philip ar gyfer y cyfnod 2014-15.

Mae'r dangosyddion hyn wedi eu seilio ar waith a wnaed gan y Comisiwn Archwilio ar gynnal a chadw eiddo ac yn dangos ffyrdd nodweddiadol o ddadansoddi data i ddarparu gwybodaeth reoli ystyrion am y gwasanaeth atgyweirio.

Tystiolaeth 10: Nifer yr atgyweiriadau ymatebol a'r rhai a gynlluniwyd fesul lleoliad




Dehongliad

A yw cyflwr yr adeiladau neu offer yn esbonio'r holl newidiadau sylweddol mewn llwyth gwaith, ynteu arferion gwahanol sy'n gyfrifol?

A yw mentrau addysgu a chodi ymwybyddiaeth mewnol wedi canolbwyntio ar y lleoliadau lle y mae'r llwyth gwaith mwyaf?

Tystiolaeth 11: Cost atgyweiriadau ymatebol a'r rhai a gynlluniwyd fesul lleoliad




Dehongliad

Mae'r dangosydd hwn yn pwysleisio'r adnoddau sylweddol posibl y gellid eu defnyddio ar atgyweiriadau.

A yw proffil yr adeilad neu offer yn esbonio amrywiadau sylweddol yng nghost a llwyth y gwaith a gynlluniwyd?

Gallai gwariant sylweddol mewn un maes awgrymu bod angen ystyried atebion eraill, gan gynnwys dull mwy systematig o wneud gwaith cynnal a chadw neu ddulliau mwy radical.

Tystiolaeth 12: Cyfran yr atgyweiriadau ymatebol a'r rhai a gynlluniwyd fesul adran




Dehongliad


A yw lefel y gwaith cynnal a chadw wedi ei adolygu'n systematig yn ddiweddar?

Os nad yw wedi'i adolygu'n ddiweddar, a all y sefydliad roi sicrwydd ei fod yn cyflawni'r cydbwysedd gorau rhwng gwaith a gynlluniwyd a gwaith ymatebol?

Tystiolaeth 13: Nifer yr atgyweiriadau fesul crefft



Tystiolaeth 14: Cost yr atgyweiriadau fesul crefft




Dehongliad

Efallai bod ffactorau hanesyddol yn dylanwadu'n fwy ar lefel staff cynnal a chadw na dyrannu systematig ar sail dadansoddiad o lwyth gwaith presennol. A gynhaliwyd dadansoddiad o'r fath yn ddiweddar?

A yw'n bosibl esbonio'r newidiadau sylweddol rhwng crefftau yn hawdd, a sut y mae hyn yn cysylltu ag amseroedd ymateb?

Exhibit 15: Perfformiad yn erbyn targedau lleol fesul crefft



Dehongliad

A gynhaliwyd dadansoddiad o berfformiad fesul crefft?

A oes unrhyw resymau dros y gwahaniaethau mewn perfformiad? A yw hyn yn gysylltiedig â'r cydbwysedd staffio perthynol rhwng crefftau?

Gallai gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng safleoedd nodi anghysondebau mewn cyflenwad gwasanaethau.

Tystiolaeth 16: Y ceisiadau mwyaf cyffredin am waith atgyweirio ymatebol

20 ceisiadau uchaf am waith atgyweirio ymatebol	Rhif	Cost £
Problemau gwres	662	18,058
Traul dderbyniol gyffredinol	443	16,900
Diffygion ar oleuadau	711	12,261
Diffygion ar ddrysau	377	11,702
Blockages	597	10,084
Diffygion ar gaeadau drysau	219	7,677
Problemau dŵr poeth	141	7,507
Iechyd a diogelwch	221	5,666
Ymchwilio i ddŵr sy'n gollwng	92	5,422
Diffyg ar Awtoclaf	78	5,282
Diffyg ar Wasieri Endosgop	103	4,678
Diffyg ar offer trydanol	192	3,726
Diffyg ar wely trydanol	166	3,579
Diffyg ar ffonau galw nyrs	319	3,394
Diffyg ar rewgell neu oergell	139	3,151
Diffyg ar loriau	59	3,063
Diffyg ar Clinimatics	76	2,700
Diffyg ar sinciau	78	2,333
Diffyg ar lifftiau	88	1,751
Diffyg ar beiriannau golchi llestri	37	1,176

Tystiolaeth 17: Y ceisiadau mwyaf cyffredin am waith atgyweirio wedi'i gynllunio

20 ceisiadau uchaf am waith atgyweirio wedi'i gynllunio	Rhif	Cost £
1W Profion awtoclaf	124	13,632
1W Archwiliadau boelerdai dyddiol	50	8,479
1W Profion larymau tân	50	3,797
1W Archwiliadau gosodiadau nwy	289	3,343
1W Archwilio sêl drysau	196	3,312
1W Monitro tymheredd systemau dŵr poeth	201	2,687
1W Archwiliadau cegin	43	2,084
1W Cynnal a chadw unedau trin aer	491	1,891
1W DHW draen tanc dŵr poeth	688	1,878
1W Gwiriadau offer trwm V.I.E.	50	1,861
2W Gwirio twll archwilio allanol	37	1,789
1W Dyletswyddau boelerdy	49	1,072
1W Gwaith cynnal a chadw ocsigen dyddiol	49	620
1W Cynnal a chadw rheolaethau aer	34	387
1W Cynnal a chadw offer manifoliau	95	340
1W Cynnal a chadw offer aer meddygol	33	337
1W Gwiriadau boelerdy	40	188
1W Gwiriadau unedau cywasgu	15	173
1W Cynnal a chadw offer vac meddygol	32	168
1W Darlleniadau mesuryddion CHP	8	46

Dehongliad

Ai'r tasgau mwyaf cyffredin yw'r rheiny y gellid eu disgwyl yn rhesymol?

A oes unrhyw dasgau y gellid disgwyl eu gwneud yn rhesymol ar y ward/yn yr adran gan eraill?

A oes unrhyw dasgau sy'n awgrymu y gellid dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr?

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru